

**2012 Rhif 2820 (Cy. 298)**

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

Gorchymyn Cefnffordd yr A465  
(Cylchfan Cwm-gwrach i Gylchfan  
Resolfen, Castell-nedd Port Talbot)  
(Gwahardd Cerbydau Dros Dro)  
2012

*Gwnaed* 9 Tachwedd 2012

*Yn dod i rym* 19 Tachwedd 2012

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (yr A465) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”) wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arni.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 19 Tachwedd 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan Cwm-gwrach i Gylchfan Resolfen, Castell-nedd Port Talbot) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 19 Tachwedd 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig yn cael eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darn o'r gefnffordd” (“*the length of the trunk road*”) yw'r darn hwnnw o gerbyttffordd orllewinol Cefnffordd yr A465 ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan Cwm-gwrach i'w chyffordd ag ochr ddwyreiniol Cylchfan Resolfen.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn cyfeirio at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

### **Gwaharddiad**

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r gefnffordd.

### **Cymhwyso**

4. Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

### **Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y

9 Tachwedd 2012

### ***RICHARD MORGAN***

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau

Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.